**Statws** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 Rhif 556 (Cy. 87)

# TAI, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygio Atodlen 12 a Diwygiad Canlyniadol) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *18 Mai 2023* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Mehefin 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adran 256(2) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016(**1**) a pharagraff 33 o Atodlen 12 iddi.

Yn unol ag adran 256(3), (4)(n) a (5) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad(**2**).

### Enwi a dod i rym

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygio Atodlen 12 a Diwygiad Canlyniadol) 2023 a deuant i rym ar 1 Mehefin 2023.

### Diwygiadau i Atodlen 12

**2.** Mae Atodlen 12(**3**) (trosi tenantiaethau a thrwyddedau presennol sy'n bodoli cyn i Bennod 3 o Ran 10 ddod i rym) i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

**3.** Ym mharagraff 1(1)(**4**) (diffiniadau), yn y lle priodol, mewnosoder—

"mae i "contract sy'n cymryd lle contract arall" ("substitute contract") yr ystyr a roddir ym mharagraff 32;".

**4.** Ym mharagraff 11(**5**) (datganiad ysgrifenedig o gontract wedi ei drosi a darparu gwybodaeth) —

(a) yn lle is-baragraff (1A) rhodder—

(**1**) 2016 dccc 1. Diwygiwyd adran 256(2) gan adran 18 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021 (dsc 3) a pharagraffau 1 ac 21(a) o Atodlen 6 iddi.

(**2**) Mae'r cyfeiriad yn adran 256(3) a (5) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 at Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**3**) Diwygiwyd Atodlen 12 gan adran 18 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021 a pharagraffau 1 a 27 o Atodlen 6 iddi a chan O.S. 2022/795 (Cy. 173) a chan reoliad 5(1) a (7) o O.S. 2022/799 (Cy. 176) a rheoliadau 2 i 5 o O.S. 2022/1258 (Cy. 256).

(**4**) Diwygiwyd paragraff 1 gan reoliadau 2 a 3 o O.S. 2022/795 (Cy. 173).

(**5**) Mewnosodwyd paragraff 11(1A) gan adran 18 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021 a pharagraffau 1 a 27(1) a (2) o Atodlen 6 iddi.

"(1A) Pan fo hunaniaeth deiliad y contract wedi newid cyn 1 Mehefin 2023 (sef y diwrnod cyntaf ar ôl diwedd y cyfnod darparu gwybodaeth), mae adran 31(2) (rhoi datganiad ysgrifenedig i ddeiliad contract newydd) yn gymwys mewn perthynas â chontract wedi ei drosi fel pe bai "ag 1 Mehefin 2023" wedi ei roi yn lle "â'r diwrnod y mae deiliad y contract yn newid".";

(b) ar ôl is-baragraff (2) mewnosoder—

"(3) Nid yw'r paragraff hwn yn gymwys mewn perthynas â chontract sy'n cymryd lle contract arall (ac yn unol â hynny mae adran 31 yn gymwys, fel y'i haddasir gan baragraff 11A, mewn perthynas â chontractau o'r fath).".

**5.** Ar ôl paragraff 11 mewnosoder—

"**11A.**—(1) Wrth eu cymhwyso i gontract sy'n cymryd lle contract arall sydd wedi dod i fodolaeth cyn 1 Mehefin 2023—

(a) mae adran 31(1) i'w darllen fel pe bai "ag 1 Mehefin 2023" wedi ei roi yn lle "â'r dyddiad meddiannu";

(b) mae adran 31(2) i'w darllen fel pe bai "ag 1 Mehefin 2023" wedi ei roi yn lle "â'r diwrnod y mae deiliad y contract yn newid";

(c) mae'r darpariaethau a ganlyn i'w darllen fel pe bai "ag 1 Mehefin 2023" wedi ei roi yn lle "â'r dyddiad meddiannu"—

(i) adran 36(3)(a);

(ii) adran 37(3)(a);

(d) mae adran 39(1) i'w darllen fel pe bai "ag 1 Mehefin 2023" wedi ei roi yn lle "â dyddiad meddiannu'r contract".

(2) Wrth eu cymhwyso i gontract sy'n cymryd lle contract arall sydd wedi dod i fodolaeth ar neu ar ôl 1 Mehefin 2023—

(a) mae'r darpariaethau a ganlyn i'w darllen fel pe bai'r cyfeiriadau at y dyddiad meddiannu yn gyfeiriadau at y diwrnod y mae gan ddeiliad y contract hawl i ddechrau meddiannu'r annedd o dan y contract sy'n cymryd lle contract arall—

(i) adran 31(1);

(ii) adran 36(3)(a);

(iii) adran 37(3)(a);

(b) mae adran 39(1) i'w darllen fel pe bai'r cyfeiriad at ddyddiad meddiannu'r contract yn gyfeiriad at y dyddiad y mae gan ddeiliad y contract hawl i ddechrau meddiannu'r annedd o dan y contract sy'n cymryd lle contract arall.".

**6.** Ym mharagraff 12A(**6**)—

(a) ar ôl "chontract wedi ei drosi" mewnosoder ", heblaw am gontract sy'n cymryd lle contract arall,";

(b) yn is-baragraff (b), ym mharagraff addasedig 2(a) o Atodlen 9A, hepgorer "(pan na fo wedi ei ddatgymhwyso gan baragraff 11(1A) o'r Atodlen honno)".

**7.** Ym mharagraff 13(1), ar ôl "chontract wedi ei drosi" mewnosoder ", heblaw am gontract sy'n cymryd lle contract arall,".

**8.** Ym mharagraff 15(3)(b)(**7**), hepgorer "(gweler paragraff 32)".

(**6**) Mewnosodwyd paragraff 12A gan adran 18 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021 a pharagraffau 1 a 27(1) a (3) o Atodlen 6 iddi ac fe'i diwygiwyd gan reoliadau 2 a 9 o O.S. 2022/795 (Cy. 173).

(**7**) Diwygiwyd paragraff 15 gan reoliadau 2 a 12 o O.S. 2022/795 (Cy. 173) a rheoliadau 2 a 4 o O.S. 2022/1258 (Cy. 256).

**9.** Ym mharagraff 32(1) (contractau meddiannaeth sy'n cymryd lle contractau eraill), ar ôl "paragraff 28" mewnosoder "neu pan fo darpariaeth ddatganedig yn cael ei gwneud i'r gwrthwyneb".

**Diwygio Deddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021**

**10.** Hepgorer paragraff 27(2) o Atodlen 6 (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol) i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021(**8**).

*Julie James*
Y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru

18 Mai 2023

(**8**) 2021 dsc 3.

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 12 i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (dccc 1) ("Deddf 2016") ac yn gwneud diwygiad canlyniadol i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021 (dsc 3). Mae Atodlen 12 i Ddeddf 2016 ("Atodlen 12") yn gwneud darpariaeth ynghylch tenantiaethau a thrwyddedau a oedd yn bodoli cyn i Ddeddf 2016 ddod i rym ac a droswyd yn gontractau meddiannaeth ar 1 Rhagfyr 2022 (y diwrnod y daeth adran 239 o Ddeddf 2016 i rym). Adwaenir y contractau hyn fel "contractau wedi eu trosi". Mae Atodlen 12 wedi ei dylunio i sicrhau bod Deddf 2016 yn gweithio'n gywir mewn perthynas â'r rhain.

Mae paragraff 11 o Atodlen 12 yn ymwneud â'r gofyniad sydd ar y landlord i ddarparu datganiad ysgrifenedig mewn perthynas â chontractau wedi eu trosi, o fewn y cyfnod darparu gwybodaeth (a ddiffinnir ym mharagraff 11(1) o Atodlen 12).

Mae paragraff 32 o Atodlen 12 yn diffinio contractau sy'n cymryd lle contractau eraill fel contractau penodedig sy'n codi ar ôl i gontract wedi ei drosi ddod i ben ac mae'n darparu bod contractau sy'n cymryd lle contractau eraill i'w trin fel pe baent yr un denantiaeth neu drwydded â'r contract sydd wedi ei drosi.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 12 er mwyn egluro'r gofynion o ran datganiad ysgrifenedig mewn perthynas â chontractau wedi eu trosi, pan fo deiliad y contract wedi newid cyn 1 Mehefin 2023 (sef diwedd y cyfnod darparu gwybodaeth), ac mewn perthynas â chontractau sy'n cymryd lle contractau eraill.

Mae rheoliad 3 yn diwygio paragraff 1 o Atodlen 12 er mwyn mewnosod diffiniad o "contract sy'n cymryd lle contract arall" o ganlyniad i ddiwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn.

Mae rheoliad 4 yn diwygio paragraff 11 o Atodlen 12 er mwyn addasu gweithrediad adran 31(2) mewn perthynas â chontractau wedi eu trosi pan fo deiliad y contract wedi newid cyn 1 Mehefin 2023. Mae rheoliad 4 hefyd yn datgymhwyso paragraff 11 mewn perthynas â chontractau sy'n cymryd lle contractau eraill.

Mae rheoliad 5 yn mewnosod paragraff newydd 11A yn Atodlen 12. Mae paragraff newydd 11A(1) yn addasu adran 31(1) a (2), adran 36(3)(a), adran 37(3)(a) ac adran 39(1) o Ddeddf 2016 mewn perthynas â'u cymhwyso i gontractau sy'n cymryd lle contractau eraill sy'n dod i fodolaeth cyn 1 Mehefin 2023. Mae paragraff newydd 11A(2) yn addasu adran 31(1), adran 36(3)(a), adran 37(3)(a) ac adran 39(1) mewn perthynas â'u cymhwyso i gontractau sy'n cymryd lle contractau eraill sy'n dod i fodolaeth ar neu ar ôl 1 Mehefin 2023.

Mae rheoliad 6 yn diwygio paragraff 12A o Atodlen 12 fel nad yw'n gymwys i gontractau sy'n cymryd lle contractau eraill. Mae rheoliad 6 hefyd yn diwygio paragraff addasedig 2(a) o Atodlen 9A (a nodir ym mharagraff 12A(b) o Atodlen 12) o ganlyniad i ddiwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn.

Mae rheoliad 7 yn diwygio paragraff 13(1) o Atodlen 12 fel nad yw'n gymwys i gontractau sy'n cymryd lle contractau eraill a gwneir darpariaeth ar wahân ar gyfer y contractau hynny o dan baragraff 11A(1)(d) a (2)(b) o Atodlen 12.

Mae rheoliad 8 yn diwygio paragraff 15(3)(b) o Atodlen 12 er mwyn hepgor cyfeiriad at baragraff 32 o'r Atodlen honno (gan ei fod bellach wedi ei gynnwys yn y diffiniadau ym mharagraff 1 o Atodlen 12).

Mae rheoliad 9 yn diwygio paragraff 32 o Atodlen 12 o ganlyniad i ddiwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn.

Mae rheoliad 10 yn hepgor paragraff 27(2) o Atodlen 6 i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021 o ganlyniad i ddiwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.